Gwybodaeth bwysig

Darllenwch y daflen hon – mae'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyfrif ynni, gan gynnwys ble i gael cyngor diduedd.

SCOTTISHPOWER

Symud cartref?

Mae'n rhwydd symud cartref gyda ScottishPower. Cwblhewch y broses ar-lein mewn ychydig o gamau syml yn **scottishpower.co.uk/moving-home**. Bydd arnoch angen eich dyddiadau symud a'ch darlleniadau mesurydd, yna byddwn ni'n gwneud popeth arall. Os oes gennych fesurydd Rhagdalu neu os nad oes gennych gyfrif ar-lein, ffoniwch ni am ddim ar **0800 027 0072**. Os byddwch yn ein ffonio, bydd arnoch angen y wybodaeth ganlynol wrth law:

- Y dyddiad pan fyddwch chi'n symud
- Darlleniadau mesurydd ar gyfer eich hen gartref a'ch cartref newydd ar y dyddiad hwn
- Eich cyfeiriad newydd/anfon ymlaen
- Manylion cyswllt ar gyfer y landlord/yr asiant gosod (os yw'n berthnasol)
- Enw'r preswyliwr newydd yn eich hen gyfeiriad (os ydych yn gwybod)
- Manylion eich cerdyn debyd neu gredyd i dalu eich bil olaf os ydych yn symud allan o'ch eiddo

Gallwch ddefnyddio ein rhestr wirio newid cyfeiriad i wneud yn siŵr nad ydych yn anghofio unrhyw beth.

Rhywbeth yn bod?

Ceisiwn ddarparu'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid. Fodd bynnag, sylweddolwn nad ydym ni'n cael pethau'n iawn bob tro. Pan fydd hyn yn digwydd, ceisiwn ddatrys pob cwyn yn llawn a chyn gynted â phosibl. Diffiniwn gŵyn fel 'unrhyw fynegiad o anfodlonrwydd gan gwsmer mewn perthynas â'n gwasanaeth neu gynhyrchion'. Mae ein manylion cyswllt ar gefn y daflen hon os oes angen i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

Os nad yw'ch cwyn yn cael ei datrys o fewn 8 wythnos, neu os ydych chi'n cael ein llythyr Cynnig Terfynol, gallwch fynd â'ch achos i'r Ombwdsmon Ynni. Ni chodir tâl am ddefnyddio eu gwasanaethau ac maen nhw'n gwbl annibynnol. Os ydych chi'n cytuno â'u penderfyniad, mae'n rhaid i ni weithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Gallai hyn olygu bod rhaid i ni ymddiheuro, esbonio beth sydd wedi mynd o'i le, cywiro'r broblem neu roi dyfarniad ariannol i chi. Ond nid oes rhaid i chi dderbyn eu penderfyniad. Gellir cysylltu â nhw ar **0330 440 1624, osenquiries@os-energy.org** neu ewch i **www.ombudsman-services.org/energy**

Cyngor ar Bopeth

Mae'n bwysig gwybod beth yw'ch hawliau o ran ynni. Gallwch gael cyngor annibynnol, yn rhad ac am ddim gan Gyngor ar Bopeth os oes arnoch angen unrhyw gymorth. Er enghraifft, gallwn helpu i ateb cwestiynau am eich biliau neu'ch mesurydd, ac edrych i weld a allwch chi gael gostyngiadau, grantiau neu dariff rhatach. Ewch i **citizensadvice.org.uk/energy** (Cymru a Lloegr) neu **www.cas.org.uk** (yr Alban) neu ffoniwch y llinell gymorth defnyddwyr ar **0808 223 1144** i gael gwybod mwy.

Angen cymorth ychwanegol? Ein Gwasanaethau Blaenoriaethol

Rydym ni eisiau rhoi cymaint o gymorth ag y gallwn i'r cwsmeriaid hynny y mae arnynt ei angen. Fe allech fod yn gymwys i gael eich ychwanegu at ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol am nifer o resymau yn amrywio o salwch cronig neu anabledd i newid i'ch amgylchiadau personol. Os deuwn yn ymwybodol y byddech yn elwa o unrhyw un o'n Gwasanaethau Blaenoriaethol, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr – fel arall, rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu eich bod chi'n gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/psr** or call us on **0800 027 0072**.

O ble mae ein hynni'n dod?

Er mwyn eich helpu i ddeall sut mae'r ynni rydym ni'n ei gyflenwi wedi cael ei gynhyrchu yn ôl ffynhonnell danwydd, dangosir manylion ein cymysgedd tanwydd isod. Rydym wedi'i gymharu â chyfanswm y cymysgedd tanwydd ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, a hefyd wedi dangos cymhariaeth rhwng ein tariffau gwyrdd a'n holl dariffau eraill. Sylwer bod ein holl dariffau pris sefydlog domestig newydd yn darparu 100% o drydan gwyrdd, a gynhyrchir gan ein ffermydd gwynt yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r wybodaeth am gymysgedd tanwydd yn manylu ar sut mae'r trydan rydym ni'n ei gyflenwi i chi wedi cael ei gynhyrchu yn ystod y flwyddyn flaenorol o bob ffynhonnell danwydd – fel glo, nwy naturiol, ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear – ac yn cymharu cymysgedd tanwydd ScottishPower â chyfanswm cymysgedd tanwydd y Deyrnas Unedig.

Fuel Mix Information 2019-2020

Ffynhonnell Ynni	Tariffau ScottishPower		Cyfanswm Cymysgedd Tanwydd ScottishPower (3)	Cymysgedd Tanwydd y DU (4)
	Tariffau Gwyrdd (1)	Pob Tariff arall (2)		
Glo	0%	5%	4%	4%
Nwy	0%	62%	50%	39%
Niwclear	0%	7%	6%	17%
Adnewyddadwy	100%	21%	36%	38%
Tanwyddau eraill	0%	5%	4%	2%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%

(1) Dyma'r cymysgedd tanwydd ar gyfer ein holl gwsmeriaid sydd ar dariffau gwyrdd
(2) Dyma'r cymysgedd tanwydd ar gyfer ein holl gwsmeriaid sydd ar dariffau nad ydynt yn dariffau gwyrdd
(3) Dyma gymysgedd yr holl ynni rydym ni'n ei brynu i'w gyflenwi i'n sylfaen gwsmeriaid gyfan
(4) Dyma gymysgedd tanwydd cyfanswm y trydan a gyflenwyd yn y Deyrnas Unedig

I gael rhagor o wybodaeth am effaith amgylcheddol eich cyflenwad trydan, ewch i **scottishpower.co.uk/fuelmix**

Rheolaeth ar flaen eich bysedd

Gydag ap ScottishPower, gallwch reoli eich cyfrif, cyflwyno darlleniadau mesurydd, gwneud taliadau a mwy. Lawrlwythwch ef o'r App Store neu Google Play

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Gallwch weld esboniad syml o'ch bil yn **scottishpower.co.uk/simplebill** neu gofrestru yn **scottishpower.co.uk/register**

Rydym ni yma i helpu

Gwefan
scottishpower.co.uk/getintouch

Llythyr
ScottishPower
Gwasanaethau Cwsmeriaid
320 St. Vincent Street
Glasgow
G2 5AD

scottishpower.co.uk

Rhif ffôn
0800 027 0072
Mae'r llinellau ar agor o 8am tan 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 8.30am tan 4pm ar ddydd Sadwrn

Anawsterau clyw neu leferydd?
Gallwch gysylltu â ni'n rhwydd gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Negeseuon Testun Cenhedlaeth Nesaf (NGTS). Ewch i **www.ngts.org.uk** i gael rhagor o wybodaeth. Os oes arnoch angen bil mewn print mawr neu Braille, neu fil llafar, ffoniwch **0800 027 0072**.

SCOTTISHPOWER